**Derek Shepherd**
**07234 567891 | ShepherdD@google.com| LinkedIn**

Myfyriwr Cemeg yr ail flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd, penderfynol a chreadigol, medrus yn y labordy ac yn meddu ar ystod o sgiliau rhyngbersonol rhagorol wedi'u meithrin drwy amrywiaeth o brofiad gwaith. Edrychaf am leoliad gwaith diwydiannol yn *The ChemWay* i roi fy ngwybodaeth ddamcaniaethol ar waith ac i wella fy sgiliau ymarferol ymhellach mewn awyrgylch ddeinamig ac arloesol.

## ADDYSG

**Cemeg gyda Blwyddyn mewn Diwydiant (MChem),** Prifysgol Caerdydd
2023 - 2027

- **Sylfeini Cemeg Organig:** Dulliau bondio/siapiau moleciwlau organig adnabyddus, a mecanweithiau adweithedd (amnewidiad, bwrw allan, ychwanegiad) a eglurir, argaeledd electronau, confensiwn y saethau cyrliog.
- **Sylfeini Cemeg Anorganig:** Deall adeiledd yr atom, ffurfwedd electronig, rhagweld tueddiadau yn y tabl cyfnodol, deillio diagramau moleciwlau orbital ar gyfer moleciwlau deuatomig homoniwclear er mwyn eu defnyddio i ragweld priodweddau, ac i ddefnyddio enthalpïau dellt gyda chylchredau Born-Haber er mwyn cyfrifo enthalpïau.
- **Cemeg Ffisegol Bellach:** Dadansoddi amrywiaeth o achosion enghreifftiol, gan gynnwys adweithiau wedi'u cataleiddio gan ensymau, adweithiau cadwynol, polymeru, a systemau aflinol.

**Safon Uwch:** Cemeg A*, Mathemateg A, Hanes B, *Chweched Dosbarth Caerdydd*
2021 – 2023

**TGAU:** 11 x A*- C, gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth, *Ysgol Uwchradd Caerdydd*
2016 - 2021

## PROFIAD PERTHNASOL

**Gwyddonydd Cynorthwyol (Cemeg),** *Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban* Ionawr – Chwefror 2024

- Casglu, paratoi a dadansoddi samplau amgylcheddol wedi'u defnyddio i asesu ansawdd dŵr gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau dadansoddol gwyddonol. Roedd y gwaith yn cynnwys defnyddio dulliau dadansoddol safonol a gweithdrefnau ansawdd a chofnodi canlyniadau ar system Gwybodaeth y Labordy.
- Cadw at ddulliau safonol a gweithdrefnau i sicrhau ansawdd a chefnogi'r system ansawdd yn unol ag ISO:17025; ymchwilio yn drylwyr i fethiannau rheoli ansawdd gyda'r bwriad o roi gwelliannau parhaus ar waith.
- Cynnal a chadw, graddnodi a datrys problemau dadansoddol ac offer maes arbenigol.
- Gweithio'n effeithiol mewn tîm i sicrhau bod y gwaith o fewn y swyddogaeth yn cael ei gyflawni ar amser ac o safon.

**Llywydd,** *Cymdeithas Gemeg Prifysgol Caerdydd* Medi 2023 – Ebrill 2024

- Arwain tîm o unigolion brwdfrydig wrth drefnu a chynnal cyfres o gyfarfodydd rheolaidd llwyddiannus a digwyddiadau cymdeithasol i feithrin ymdeimlad o gymuned yn y Gymdeithas Gemeg.
- Bod yn bwynt cyswllt cyntaf i'r Gymdeithas Gemeg ar gyfer cymdeithasau myfyrwyr eraill, gan hwyluso eraill i gydweithio a chyfrannu at gyfleoedd i rwydweithio ar draws ddisgyblaethau eraill.

- Creu ffyrdd o’r newydd i gynyddu aelodau’r Gymdeithas Gemeg, gan gynnwys defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol a darlithoedd i hyrwyddo’r gymdeithas, ac felly hwyluso rhagor o gydweithio.

## SGILIAU

**Sgiliau Labordy:** Hyderus wrth ddefnyddio technegau labordy, gyda llygad craff am fanylion, cadw at brotocolau diogelwch, a'r gallu i ddadansoddi data'n gywir i gyfrannu'n effeithiol at waith ymchwil ac arbrofi gwyddonol, wedi’u datblygu drwy gynnal arbrawf diogel yn y brifysgol yn ystod y modiwl 'Sylfaen Ymarferol Cemeg Blwyddyn 1', a oedd yn cynnwys rhoi'r holl weithdrefnau gofynnol ar waith gan ddefnyddio gweithdrefn safonol (SOPs), llawlyfrau cyfarwyddiadau, ac asesiadau risg.
**Gwaith tîm:** Hyderus wrth hyrwyddo gweithio’n effeithiol fel rhan o dîm, gan ddefnyddio cryfderau amrywiol i gyflawni amcanion cyffredin gyda’n gilydd, cydweithio'n effeithiol yn rhan o dîm, gan ddangos hyblygrwydd, sgiliau cyfathrebu, a chymryd ymagwedd sy’n cyflawni amcanion, i gyd drwy gymryd rhan yng nghyfarfodydd trefnu pwyllgor y Gymdeithas Gemeg, gan dynnu sylw at sgiliau gweithio yn rhan o dîm effeithiol.

**Cyfathrebu:** Gallu diamheuol i gyfleu canlyniadau’n glir yn ysgrifenedig ac ar lafar, gan ddangos sgiliau cyfathrebu rhagorol wrth gyfathrebu’n eglur, dangos sgiliau gwrando gweithredol, ac yn fedrus wrth gyfleu syniadau cymhleth i gynulleidfaoedd amrywiol, i’w weld yn y gwaith o gyfleu canlyniadau cemeg yn effeithiol yn Wyddonydd Cynorthwyol.

**Sgiliau TG:** Sgiliau TG uwch, gan ddangos hyfedredd wrth ddefnyddio ystod eang o dechnolegau meddalwedd a chaledwedd, gan alluogi i ddatrys problemau yn effeithlon ac arloesi mewn awyrgylch ddigidol, meddu ar sgiliau TG sylfaenol gan gynnwys hyfedredd wrth ddefnyddio meddalwedd lluniadu cemegol, offer dadansoddi data, a systemau rheoli gwybodaeth labordy i gefnogi gwaith arbrofol a dadansoddi data mewn lleoliadau ymchwil.

**Sgiliau rhyngbersonol:** Sgiliau rhyngbersonol cryf y gall eu dangos wrth feithrin cydberthynas, a datrys unrhyw wrthdaro yn adeiladol, chydweithio'n effeithiol yn rhan o dîm deinamig, wedi’i amlygu drwy gyfathrebu’n effeithiol, datrys unrhyw wrthdaro, a gweithio’n rhan o dîm, wedi’i enghreifftio gan rolau Cynorthwyydd Gwasanaethau Cwsmeriaid.

## PROFIAD PELLACH

**Cynorthwyydd Gwasanaethau Cwsmeriaid,** *Stadiwm Principality*
2021 – Presennol

- Rhoi gwasanaeth cwsmeriaid arbennig tra oedd digwyddiadau’n cael eu cynnal yn Stadiwm Principality yng Nghaerdydd, gan sicrhau bod pob cwsmer yn cael profiad i’w gofio sy’n gadarnhaol.
- Rhoi cymorth gydag ymholiadau amrywiol a chefnogi tîm prysur i reoli amrywiaeth o dasgu i sicrhau bod digwyddiadau'n rhedeg yn ddidrafferth.

## DIDDORDEBAU

**Teithio cyffredinol a theithio yn ystod blwyddyn allan** sydd wedi rhoi cyfle i brofi llawer o diwylliannau amrywiol ac arwain at wella dealltwriaeth o amrywiaeth, ac i greu’r cysylltiadau gyda phobl o bob math o gefndiroedd diwylliannol a economaidd-gymdeithasol gwahanol.